OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 1478

# Gorchymyn Parth Arddangos Morlais 2021

## RHAN 3

### Caffael a Meddiannu Tir

*Atodol*

**Pŵer i drechu hawddfreintiau a hawliau eraill**

**34.**—(1) Mae unrhyw weithgarwch awdurdodedig sy'n digwydd ar dir o fewn terfynau'r Gorchymyn ar y tir (p'un a gynhelir y gweithgarwch gan yr ymgymerwr, neu gan unrhyw berson sy'n deillio teitl gan yr ymgymerwr neu gan gontractwyr, gweision neu asiantau'r ymgymerwr) wedi'i awdurdodi gan y Gorchymyn hwn os y'i gwneir yn unol â thelerau'r Gorchymyn hwn, er ei fod yn cynnwys—

(a) ymyrraeth â diddordeb neu hawl y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo neu iddi; neu

(b) torri cyfyngiad ynglŷn â'r defnydd o dir sy'n codi yn rhinwedd contract.

(2) Yn yr erthygl hon, ystyr "gweithgarwch awdurdodedig" yw—

(a) adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw neu ddatgomisiynu unrhyw ran o'r gweithfeydd awdurdodedig;

(b) arfer unrhyw bŵer a awdurdodir gan y Gorchymyn hwn; neu

(c) ddefnyddio unrhyw dir (gan gynnwys defnyddio tir dros dro).

(3) Mae'r buddiannau a'r hawliau y mae'r erthygl hon yn gymwys iddynt yn cynnwys unrhyw hawddfraint, rhyddid, braint, hawl neu fantais a atodir i dir ac sy'n effeithio'n andwyol ar dir arall, gan gynnwys unrhyw hawl naturiol i gymorth; ac yn cynnwys cyfyngiadau ynglŷn â'r defnydd o dir sy'n codi yn rhinwedd contract.

(4) Pan fo unrhyw fuddiant, hawl neu gyfyngiad yn cael ei drechu neu ei threchu gan baragraff (1), mae digolllediad—

(a) yn daladwy o dan adran 7 (mesur digolledediad yn achos gwahanu tir) neu adran 10 (darpariaeth bellach ynglŷn â digolledu am effeithiad andwyol) o Ddeddf 1965; a

(b) i'w asesu yn yr un modd ac yn ddarostyngedig i'r un rheolau ag yn achos digolledu arall o dan yr adrannau hynny—

(i) pan fo'r digolledediad i'w amcangyfrif mewn cysylltiad â phryniant o dan y Ddeddf honno; neu

(ii) pan fo'r niwed yn codi o gwblhau gweithfeydd ar y tir a gaffaelwyd o dan y Ddeddf honno neu o ddefnyddio'r cyfryw dir.

(5) Pan fo person sy'n deillio teitl o dan yr ymgymerwr a gaffaelodd y tir dan sylw—

(a) yn atebol i dalu digolledediad yn rhinwedd paragraff (4); a

(b) yn methu â chyflawni'r atebolrwydd hwnnw;

mae'r atebolrwydd yn orfodadwy yn erbyn yr ymgymerwr.

(6) Nid oes dim yn yr erthygl hon i'w ddehongli fel pe bai'n awdurdodi unrhyw weithred neu anwaith ar ran unrhyw berson sy'n agored i gyfraith drwy achos cyfreithiol unrhyw berson ar unrhyw seiliau heblaw am y cyfryw ymyrraeth neu'r tor cyfyngiad a grybwyllir ym mharagraff (1).